1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Hyfforddiant ar gyfer y sector gofal cymdeithasol mewn dysgu yn y gwaith ac addysg bellach

Gorffennaf 2007

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir defnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys **Tudalen**

Cyflwyniad **1**

Cyd-destun **2**

Cefndir **3**

Prif ganfyddiadau **4**

Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – darparwyr dysgu yn y gwaith 4
Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – colegau addysg bellach 5
Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – materion cyffredinol 5

Argymhellion **7**

Adolygiad o arolygiadau dysgu yn y gwaith a cholegau addysg bellach sy'n cyflwyno cyrsiau gofal cymdeithasol **8**

Darparwyr dysgu yn y gwaith 8
Colegau addysg bellach 11

Atodiadau

1 CGCau a Chymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
2 Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn
3 Proffil o raddau arolygu AB a dysgu yn y gwaith

Cyflwyniad

1 Mae adroddiad blynyddol 2004-2005 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi tynnu sylw at y safonau cymharol wael a gyflawnir gan ddysgwyr ar raglenni hyfforddiant mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

2 Cynhaliwyd trafodaeth o'r adroddiad yng nghyfarfod Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2006. O ganlyniad, gofynnodd aelodau'r pwyllgor i Estyn ymgymryd â mwy o waith yn y maes hwn i nodi'r materion sy'n ymwneud â pherfformiad gwael y sector hwn.

3 O ganlyniad ac fel rhan o'i gylch gwaith yn 2006-2007 ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), cynhaliodd Estyn arolwg o ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer y sector gofal a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith a ariennir yn gyhoeddus. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys hyfforddiant y sector gofal a gyflwynir gan golegau addysg bellach yng Nghymru.

4 Wrth gynnal yr arolwg hwn, roedd Estyn yn bryderus i beidio â dyblygu gwaith ymchwil arall, ac ymarferion, gweithgareddau ac adroddiadau eraill a oedd naill ai'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd neu wedi'u cwblhau'n ddiweddar.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymgynghoriad yr Adran Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) ar yr Adolygiad Medrau o'r Sector Gofal Cymdeithasol (Staff sydd mewn Sefydliadau Gofal Uniongyrchol) 2006 (www.cymru.gov.uk).

- Adroddiad Cyngor Gofal Cymru ac ELWa (AADGOS bellach) mewn cydweithrediad â Miller Research 2006, fel rhan o'r Adolygiad Medrau o'r Sector Gofal Cymdeithasol.

- Ymchwil Astudiaethau Achos y Sector Gofal Cymdeithasol 2005 ELWa (AADGOS bellach)/Cyngor Gofal Cymru (www.miller-research.co.uk).

- Cynllun Rhagolwg Medrau Cyngor Gofal Cymru ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2003 (www.ccwales.org.uk).

- Medrau Dyfodol Cymru, Materion Medrau'r Dyfodol sy'n effeithio ar Sectorau Diwydiant (Sector Gofal Cymdeithasol) yng Nghymru 2000.

- Ymchwil Astudiaethau Achos y Sector Gofal Cymdeithasol ELWa (AADGOS bellach) a Chyngor Gofal Cymru a baratowyd gan Beaufort Research/Golley Slater 2005 (www.beaufortresearch.co.uk).

- Y Fframwaith Cymhwyster ar gyfer y Sector Cymdeithasol yng Nghymru 2003 (www.ccwales.org.uk).

Cyd-destun

5 Mae'r 'sector gofal' yn gymhleth ac amrywiol. Mae'n ymdrin ag ystod eang o feysydd galwedigaethol arbenigol. Er enghraifft, gallai pobl fod yn weithwyr cyswllt i deuluoedd a phlant, yn weithwyr cymorth sy'n helpu oedolion gydag anawsterau dysgu i fyw bywydau annibynnol mewn amgylchedd â chefnogaeth, neu'n weithwyr cartref sy'n rhoi cymorth yn y cartref i bobl oedrannus sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Fodd bynnag, mae mwyafrif y gweithwyr 'gofal' yn gweithio mewn gofal cymdeithasol, mewn lleoliadau gofal uniongyrchol, gan weithio gydag oedolion.

6 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyflawniad dysgwyr sydd wedi dechrau ar raglen hyfforddiant gofal cymdeithasol (gofal uniongyrchol) a ariennir yn gyhoeddus. Nid yw rhai o'r dysgwyr hyn yn gweithio yn y sector ar hyn o bryd.

7 Mae hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal yn cynnwys ystod o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaeth. Mae'n cynnwys hefyd cyrsiau a phynciau mewn meysydd arbenigol gwahanol gan gynnwys gofal cymdeithasol, gofal iechyd, gofal plant ac addysg, gwaith chwarae, cynghori, astudiaethau lles, nyrsio deintyddol, gwasanaethau cyhoeddus a thai.

8 Mae llawer o lwybrau hyfforddiant a chymwysterau ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae dyfarniadau'n cynnwys Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (CGCau) a Chymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth. Mae Atodiad 1 yn cynnwys esboniad o'r dyfarniadau hyn.

9 Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS), sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ariannu addysg a hyfforddiant cyhoeddus ar gyfer cyrsiau 'gofal' CGC a Chymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth mewn darparwyr dysgu yn y gwaith a cholegau addysg bellach.

10 Yn gyffredinol, mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyflwyno CGCau sy'n gysylltiedig â gofal. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r 'fframwaith' y mae disgwyl i ddysgwyr ei ennill er mwyn cael eu cymhwyster 'prentisiaeth'. Fel rhan o'r fframwaith prentisiaeth mae'n rhaid i ddysgwyr hefyd ennill cymwysterau medrau allweddol a thystysgrif dechnegol.

11 Yn gyffredinol, mae colegau addysg bellach yn cyflwyno ystod eang o Gymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth sy'n ymwneud â gofal, fel Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol. Yn ogystal, maent yn cyflwyno ystod eang o CGCau sy'n gysylltiedig â gofal.

Cefndir

12 Mae adolygiad desg o adroddiadau arolygu presennol Estyn yn ffurfio sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'n cynnwys trosolwg o ganfyddiadau arolygu Estyn ac mae'n cynnwys dadansoddiadau o'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer arolygu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn darparwyr dysgu yn y gwaith a cholegau addysg bellach; mae'n tynnu sylw at Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; materion a nodwyd yn yr adroddiadau; a'r argymhellion i weithredu arnynt yn y dyfodol. Y sgil cyflwyno Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn (Gweler Atodiad 2 am fanylion) wrth arolygu Colegau Addysg Bellach (2002) ac mewn darparwyr Dysgu yn y Gwaith (2004), aeth yr arolwg i'r afael ag adroddiadau arolygu o ddyddiad cyflwyno'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer pob sector hyd at ddiwedd 2006.

13 Yn ystod y cyfnod hwn, arolygodd Estyn saith darparwr dysgu yn y gwaith (14% o'r holl ddarparwyr dysgu yn y gwaith) a saith coleg addysg bellach (o dan chwarter o'r colegau addysg bellach).

Prif ganfyddiadau

14 Mae niferoedd y dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal yn amrywio'n fawr rhwng darparwyr, mewn dysgu yn y gwaith ac addysg bellach fel ei gilydd. Er enghraifft, yn y cyfnod y mae'r papur hwn yn cyfeirio ato, mae nifer cyfredol y dysgwyr sydd ar raglenni mewn dysgu yn y gwaith yn amrywio rhwng 20 a 400. Nid yw'n ymddangos bod cydberthynas rhwng nifer y dysgwyr Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal sy'n hyfforddi gyda darparwr a'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer safonau dysgwyr. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod dysgwyr yn fwy neu'n llai llwyddiannus mewn darparwyr bach neu fawr.

Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – darparwyr dysgu yn y gwaith

15 Mae angen i brentisiaid sy'n hyfforddi gyda darparwyr dysgu yn y gwaith ennill y fframwaith prentisiaeth, gan gynnwys tystysgrif dechnegol a chymwysterau medrau allweddol, er mwyn bod yn llwyddiannus.

16 Er bod cyflawniad dysgwyr o ran medrau a gwybodaeth yn foddhaol neu'n well, nid yw nifer fawr o ddysgwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant gyda darparwyr dysgu yn y gwaith yn ennill y gofynion cymhwyster llawn yn eu fframweithiau prentisiaeth.

17 O bryd i'w gilydd, mewn rhai darparwyr dysgu yn y gwaith, mae canran uwch o ddysgwyr yn ennill CGC na'r cymhwyster fframwaith. Gallai hyn awgrymu problem gyda dysgwyr yn ennill y dystysgrif dechnegol a chymwysterau medrau allweddol. Fodd bynnag, nid oedd y patrwm hwn yn gyson ym mhob darparwr dysgu yn y gwaith. At ei gilydd, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn ennill y fedr allweddol nac elfennau tystysgrif dechnegol eu fframwaith prentisiaeth.

18 Mae dysgwyr y mae ganddynt sylfaen wybodaeth dda, a enillwyd o astudio Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn flaenorol, yn aml yn ennill eu fframwaith prentisiaeth yn gynt, ac maent yn fwy llwyddiannus yn eu rhaglen na dysgwyr eraill. Hwyrach bod ganddynt y wybodaeth sylfaenol a enillwyd o'u Cymhwyster sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth eisoes a'r astudiaeth medrau allweddol flaenorol. Fodd bynnag, mae cyflymder ac ansawdd eu cynnydd yn parhau i fod yn hynod ddibynnol ar ansawdd, amlder a phriodoldeb yr asesu.

19 Yn gyffredinol, nid yw darparwyr dysgu yn y gwaith a chyflogwyr yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i wybodaeth, profiad a chyflawniad blaenorol dysgwyr o Gymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn ymwneud â gofal cymdeithasol a enillwyd yn ddiweddar, yn ystod eu rhaglen brentisiaeth. Nid ydynt yn manteisio digon ar, nac yn adeiladu ar, gymwysterau, gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol dysgwyr.

20 Mae dau o'r tri darparwr dysgu yn y gwaith a ailarolygwyd oherwydd y dyfarnwyd graddau islaw trothwy ansawdd Estyn (gradd 3) iddynt, wedi gwella'u graddau y tu hwnt i'r trothwy ansawdd.

21 Lle cafwyd gradd well mewn ailarolygiadau, roedd hyn yn bennaf am fod cyfraddau cyrhaeddiad gwell gan ddysgwyr yn sgil darparwyr yn newid eu dulliau cyflwyno ac asesu. Mae dulliau felly'n cynnwys gwneud yn siwr bod medrau allweddol a thystysgrifau technegol wedi'u hintegreiddio fel rhan o'r brentisiaeth.

22 Roedd dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni prentisiaeth gyda darparwyr dysgu yn y gwaith yn fwy tebygol o ennill eu fframweithiau pan oeddent yn cael profiadau a chyfleoedd hyfforddiant a dysgu priodol, strwythuredig a oedd yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Roedd y profiadau hyn yr un mor llwyddiannus p'un ai y cawsant eu cynnal yn eu gweithle neu ar safle'r darparwr dysgu yn y gwaith.

Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – colegau addysg bellach

23 Perfformiodd pob coleg addysg bellach yn well na'r darparwyr dysgu yn y gwaith, gan ddyfarnu graddau uwchlaw'r trothwy ansawdd. Mae perfformiad dysgwyr wrth ennill eu nodau dysgu mewn colegau addysg bellach yn fwy cyson na darparwyr dysgu yn y gwaith.

24 Fel rheol, mae dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni CGC yn y coleg yn fwy llwyddiannus wrth gyflawni eu nodau dysgu na'r rhai sy'n dilyn rhaglenni prentisiaeth sy'n seiliedig ar CGC mewn dysgu yn y gwaith. Yn gyffredinol, mae angen i ddysgwyr ennill eu prif gymhwyster yn unig, naill ai Cymhwyster sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth neu CGC, er mwyn bod yn llwyddiannus[1].

Hyfforddiant Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal – materion cyffredinol

25 Lle caiff Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal radd 3 neu'n is, y rheswm trosfwaol yw nad oedd cyrhaeddiad dysgwyr a adawodd eu rhaglenni yn y cyfnod blwyddyn blaenorol yn ddigon da.

26 Roedd cyflawniad, cynnydd a datblygiad medrau'r dysgwyr presennol o leiaf yn foddhaol ym mhob un o'r darparwyr a arolygwyd. Yn aml, roeddent yn dda iawn, ac weithiau'n rhagorol.

27 Mae dysgwyr yn datblygu medrau boddhaol, ac yn aml da iawn, a lefelau uchel o ran hyfedredd galwedigaethol a medrau ymarferol yn ystod eu hyfforddiant.

28 Mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr yn gyffredinol well lle mae aseswyr dynodedig ar gyfer dysgwr yn cynnal asesiadau yn rheolaidd. Roedd eu cyrhaeddiad hefyd yn well lle defnyddiodd yr aseswyr yr ymweliad asesu i gefnogi hyfforddiant a dysgu yn ogystal ag asesu hyfedredd.

29 Roedd lefel is y wybodaeth ysgrifenedig a'r diffyg medrau ymchwil, yn enwedig gan ddysgwyr lefel tri, yn aml yn sgil gofyniad 'hyfedredd' CGCau. Mae'n ofynnol i ddysgwyr brofi eu hyfedredd i ennill eu CGC. Mae athrawon yn eu hannog i ennill eu

[1] Gallai fod llawer o ddysgwyr mewn addysg bellach fod yn astudio cymwysterau ychwanegol, fel medrau allweddol. Fodd bynnag, caiff y rhain eu hachredu ar wahân i'w prif gymhwysster.

CGC, ond nid i ddatblygu ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach bob amser.

30 Gwelai rhai athrawon CGC mewn sefyllfaoedd dysgu yn y gwaith ac addysg bellach eu hunain fel 'aseswyr'. Nid oeddent yn ystyried eu hunain yn gyflwynwyr addysg a hyfforddiant, gyda rôl a oedd yn cynnwys herio dysgwyr a'u hannog i wella a gwneud cynnydd.

31 Bron yn ddieithriad, roedd dysgwyr yn perfformio'n dda yn y gweithle. Roedd hyn yn cynnwys y dysgwyr addysg bellach amser llawn hynny a gyflawnodd profiad gwaith fel rhan annatod o'u rhaglen.

Argymhellion

Mae angen i'r rhanddeiliaid hynny sydd ynghlwm wrth sicrhau ansawdd ac ariannu darpariaeth ddysgu a hyfforddiant ar gyfer y sector gofal cymdeithasol (gofal uniongyrchol) yng Nghymru:

A1 ymgymryd ag adolygiad pellach o safonau dysgwyr mewn darpariaeth gofal cymdeithasol (gofal uniongyrchol), ac o ran ei ansawdd a'r rheolaeth arno;

A2 datblygu ymhellach strategaethau i godi cyfraddau cadw a chyrhaeddiad dysgwyr, yn enwedig mewn dysgu yn y gwaith;

A3 gwella strategaethau ar gyfer asesiad CGC, er mwyn gwneud yn siŵr bod gweithgareddau asesu yn rheolaidd ac yn cael eu cefnogi gan brofiadau dysgu ehangach;

A4 gwella strategaethau i wneud yn siŵr bod prentisiaid a dysgwyr CGC eraill yn cael profiadau hyfforddi a dysgu priodol, strwythuredig sy'n cefnogi datblygiad eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llawn, a bod profiadau dysgu'n cysylltu ymarfer gyda theori;

A5 cynyddu rhwyddineb mynediad i gyflogaeth gofal cymdeithasol fel gweithiwr cymwys (rhannol) trwy alluogi darpar weithwyr gyda Chymhwyster sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth priodol i gael cydnabyddiaeth ac achrediad ar gyfer eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth cyfredol; a

A6 gwella dealltwriaeth darparwyr a chyflogwyr o Gymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth, a'u cydnabyddiaeth o brofiad a gwybodaeth gofal cymdeithasol blaenorol dysgwyr pan fyddant yn dechrau mewn cyflogaeth gofal cymdeithasol.

Adolygiad o arolygiadau dysgu yn y gwaith a cholegau addysg bellach sy'n cyflwyno cyrsiau gofal cymdeithasol

Darparwyr dysgu yn y gwaith

32 Rhwng mis Medi 2004 a mis Awst 2006, arolygodd Estyn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn saith darparwr dysgu yn y gwaith, a dyfarnwyd y proffil graddau canlynol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Proffil y graddau arolygu ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 ym maes dysgu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn dysgu yn y gwaith

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Nifer y darparwyr	0	0	3	2	2
Canran y darparwyr	0%	0%	42%	29%	29%

33 Ailarolygwyd darpariaeth anfoddhaol mewn tri o'r pedwar darparwr ers hynny. Ni ailarolygwyd y ddarpariaeth gradd 5 sy'n weddill hyd yn hyn.

Proffil y graddau arolygu, *gan gynnwys graddau ail-arolygu*, ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 ar gyfer y maes dysgu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn darparwyr dysgu yn y gwaith rhwng mis Medi 2004 a mis Awst 2006.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Nifer y darparwyr	0	1	4	1	1
Canran y darparwyr	0%	14%	58%	14%	14%

34 Roedd dros 90% o'r dysgwyr ym mhob un o'r darparwyr dysgu yn y gwaith yn brentisiaid modern (PM) neu'n brentisiaid modern sylfaenol (PMS) a oedd yn ymgymryd â CGC lefel 2 neu 3 mewn Gofal, neu CGC lefel 3 Hyrwyddo Annibyniaeth. Roedd tua 7% o ddysgwyr yn ymgymryd â CGC lefel 4 mewn Gofal. Roedd y 3% a oedd yn weddill yn dilyn rhaglenni eraill, rhaglenni paratoadol fel arfer, i helpu eu paratoi nhw i ymgymryd â rhaglen brentisiaeth.

Canran y dysgwyr Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal ar raglenni dysgu yn y gwaith

	Dysgwyr sy'n dilyn prentisiaeth fodern neu brentisiaeth fodern sylfaenol sy'n cynnwys CGC sy'n gysylltiedig â gofal ar lefel 2 neu 3	Dysgwyr sy'n dilyn CGC sy'n gysylltiedig â gofal ar lefel 4	Dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal eraill
Canran y dysgwyr	90%	7%	3%

35 O'r dysgwyr ar raglenni prentisiaeth, roedd rhyw 61% yn dilyn rhaglen Prentisiaeth Fodern, gyda 39% o ddysgwyr yn dilyn rhaglen Prentisiaeth Fodern Sylfaenol. Yn gyffredinol, mae PM yn dilyn rhaglen lefel 3 ac mae PMS yn dilyn rhaglen lefel 2.

Canran y dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Prentisiaeth Fodern a Phrentisiaeth Fodern Sylfaenol

	Prentisiaid modern	Prentisiaid modern sylfaenol
Canran y dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Prentisiaeth Fodern a Phrentisiaeth Fodern Sylfaenol	61%	39%

36 Roedd gan bron pob dysgwr waith mewn lleoliadau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol. Roedd gan nifer fach o ddysgwyr di-waith leoliadau gwaith mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a oedd yn eu galluogi i weithio tuag at gyflawni CGC ar lefel 2.

37 Roedd nifer y dysgwyr ar raglen gyda'r darparwyr gwahanol ar adeg yr arolygiadau'n amrywio o 19 i bron 400.

Cyflawniad y dysgwyr

38 Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd dysgwyr a oedd ar raglen ar adeg yr arolygiadau ar y trywydd iawn i gyflawni eu cymwysterau o fewn cyfnod priodol o amser. Roedd lefel cyflawniad, cynnydd a datblygu medrau'r dysgwyr presennol yn aml yn rhoi darlun llawer mwy cadarnhaol na chyrhaeddiad y garfan flaenorol o ddysgwyr, hyd yn oed yn y darparwyr is eu perfformiad. Mae dysgwyr yn dechrau hyfforddiant ar lefelau gwahanol a gallai fod gan rai ohonynt y potensial i fod yn fwy llwyddiannus nag eraill. Serch hynny, mae'n destun gofid bod canran uchel o ddysgwyr yn methu cyflawni naill eu fframwaith cymhwyster neu'r CGC, er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod eu gwaith o leiaf yn foddhaol, ac yn aml yn dda.

39 Roedd y dysgwyr presennol yn cyrraedd safonau rhesymol i dda ac weithiau da iawn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau galwedigaethol. Roedd ganddynt safonau gwaith ysgrifenedig da a medrau ymarferol da. Roedd dysgwyr yn y ddarpariaeth gradd pedwar a phump hefyd yn cyflawni ystod dda o fedrau galwedigaethol ac yn cymhwyso safonau ymddygiad da yn eu gweithgareddau yn y gweithle. Cafodd darparwyr radd 4 neu 5 os oedd cyrhaeddiad fframwaith y garfan flaenorol o ddysgwyr yn wael, hyd yn oed os oedd y garfan bresennol o ddysgwyr yn cyflawni'n dda.

40 Gwnaeth y dysgwyr y cynnydd gorau ym mhob elfen o'u rhaglen, gan gynnwys y cymwysterau medrau allweddol a'r dystysgrif dechnegol, pan gyflwynodd yr athrawon nhw i fedrau allweddol a'r dystysgrif dechnegol fel rhan annatod o'u fframwaith cymhwyster yn gynnar yn eu rhaglen.

41 Enillodd dysgwyr mwy o wybodaeth a dealltwriaeth well o egwyddorion ymddygiad ac arfer dda pan gyflwynodd yr athrawon nhw i'r dystysgrif dechnegol yn gynnar yn eu rhaglen. Helpodd hyn iddynt symud ymlaen yn well gyda'r CGC.

42 Cafodd y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd i ennill cymwysterau perthnasol ychwanegol, er yr oedd y rhain yn aml trwy eu cyflogwr, yn hytrach na thrwy'r darparwr dysgu yn y gwaith. Roedd y dysgwyr a gwblhaodd eu rhaglenni ac a enillodd eu cymwysterau yn gyffredinol yn fwy llwyddiannus oherwydd y gefnogaeth

a gawsant pan oedd y cyflogwr a'r darparwr ynghlwm yn hyfforddiant y dysgwyr, a phan oeddent yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r profiad dysgu. Roedd dysgwyr a gafodd ymweliadau ac asesiadau rheolaidd gan eu hathrawon yn fwy llwyddiannus.

43 O ganlyniad i'w hyfforddiant, manteisiodd pob dysgwr ar fwy o hunanymwybyddiaeth a mwy o fodlonrwydd yn y gwaith. Cadarnhaodd gweithwyr aeddfed, yn benodol, bod ymgymryd â chymhwyster ffurfiol wedi'u helpu i fagu hyder, yn eu gweithle ac yn bersonol.

44 Os oedd athrawon yn asesu lefel hyfedredd y dysgwyr yn rheolaidd, symudodd dysgwyr yr oedd ganddynt Gymhwyster sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth sy'n berthnasol yn alwedigaethol, yn gynt trwy eu rhaglen brentisiaeth.

45 Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarparwyr dysgu yn y gwaith a oedd yn ystyried gwybodaeth a phrofiad blaenorol dysgwyr yn ddigonol pan wnaethant ddechrau ar eu rhaglen brentisiaeth. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn derbyn y sefyllfa hon oherwydd eu bod yn deall bod angen iddynt wella'u medrau ymarferol, yn gysylltiedig â swydd a phrofi eu hyfedredd i allu gweithio'n dda yn y maes. Fodd bynnag, teimlai llawer ohonynt eu bod yn ailadrodd gwaith, yn aml ar lefel is nag a astudiwyd yn flaenorol ganddynt.

46 Mae'n ymddangos mai ychydig bach o ystyriaeth y mae darparwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid yn ei rhoi i briodoldeb neu berthnasedd Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth, neu fod ganddynt ddiffyg dealltwriaeth ohonynt, a'u defnyddioldeb posibl fel 'carreg filltir' werthfawr a chyflwyniad i raglenni CGC gofal cymdeithasol a chyflogaeth gofal cymdeithasol.

47 Mae'n ymddangos bod systemau ar gyfer elfennau 'cymysgu a chyfateb' cymwysterau gofal cymdeithasol galwedigaethol a chymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaeth heb eu datblygu'n ddigonol. Mae'n ymddangos mai ychydig bach o ystyriaeth y mae grwpiau ac unigolion sydd ynghlwm wrth gymwysterau a hyfforddiant gofal cymdeithasol yn ei rhoi i'r potensial ar gyfer mathau gwahanol o gymwysterau i gefnogi ei gilydd. Mae'n ymddangos mai ychydig bach o ystyriaeth a roddir i'r posibilrwydd o alinio cymwysterau lle bo hynny'n briodol.

48 Mae nifer y dysgwyr a gwblhaodd eu rhaglen ymhen cyfnod priodol o amser, ac a enillodd eu fframwaith cymhwyster llawn, hynny yw y CGC, y dystysgrif dechnegol a'r cymwysterau medrau allweddol, yn wael mewn chwarter o'r darparwyr a arolygwyd (darpariaeth gradd 4 a 5). Dim ond chwarter o'r ddarpariaeth a arolygwyd oedd naill ai'n dda neu'n dda iawn.

49 Mewn nifer o'r darparwyr a arolygwyd, gadawodd dysgwyr Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal eu rhaglen yn gynnar. Gadawodd bron hanner y dysgwyr a oedd wedi gadael yn y deuddeg mis cyn yr arolygiad heb unrhyw gymhwyster ffurfiol. Fodd bynnag, ar adeg ailarolygiadau'r darparwyr, roedd cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr o ran y fframwaith prentisiaeth, y CGC llawn ac unedau'r CGC wedi gwella'n sylweddol. Nid yw un o'r darparwyr wedi cael ei ail-arolygu eto.

50 Mewn darparwr arall gyda dros 250 o ddysgwyr ar y rhaglen ar adeg eu harolygiad cyntaf, gadawodd dros ddwy ran o dair o'r dysgwyr yn y cyfnod deuddeg mis cyn yr arolygiad heb gymhwyster rhannol na llawn. Yn yr ailarolygiad, gwelodd yr arolygwyr fod nifer y dysgwyr ar y rhaglen wedi cynyddu i dros 400 oherwydd cynnydd yng nghontract y darparwr. Ac eto, roedd llai nag un rhan o bump o'r dysgwyr a oedd wedi gadael eu rhaglen wedi ennill eu fframwaith llawn ac roedd llai na thraen wedi ennill eu CGC. Cyflawnodd dros hanner y dysgwyr unedau o'r CGC yn unig. Dangosodd cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad y dysgwyr ychydig iawn o welliant.

51 Cafodd nifer o ddysgwyr a adawodd eu rhaglenni'n gynnar heb ennill cymhwyster llawn na rhannol eu categoreiddio fel rhai mewn 'cyflogaeth gysylltiedig'. Nid yw'n bosibl cadarnhau a wnaethant barhau â'r un cyflogwr neu a wnaethant ddechrau cyflogaeth newydd mewn gofal cymdeithasol. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau. Os oedd dysgwyr yn parhau yn yr un gyflogaeth, pam nad enillon nhw unrhyw gymhwyster rhannol neu lawn? Os gwnaethant ddewis rhoi'r gorau i'w hyfforddiant, beth oedd y rhesymau? Os oedd dysgwyr yn dechrau cyflogaeth newydd pam nad oeddent yn gallu cwblhau eu cymwysterau? Ai dewis personol oedd hyn neu oherwydd nad oedd hyfforddiant ar gael?

52 Mae portffolios a gwaith ysgrifenedig rhai dysgwyr lefel tri a phedwar yn gyfyngedig. Mae ganddynt fedrau astudio ac ymchwil manwl sylfaenol. Fel arfer, mae gan y dysgwyr hyn ddigon o dystiolaeth i fodloni meini prawf asesu fel sy'n ofynnol gan CGCau, ond mae eu gwaith yn dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth fanwl ac astudio annibynnol.

53 Mae rhai aseswyr yn canolbwyntio ar asesu dysgwyr yn unig. Nid ydynt yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd hyfforddiant ac nid ydynt yn trafod atebion dysgwyr yn ddigon llawn i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae llawer o aseswyr yn methu cysylltu asesu gydag addysgu, hyfforddi a dysgu yn llawn.

54 Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn symud ymlaen yn araf, neu'n methu cwblhau eu cymhwyster oherwydd nid yw'r athrawon yn eu hasesu'n ddigonol, mae eu haseswyr wedi newid, ychydig iawn o ddiddordeb y mae eu cyflogwyr yn dangos yn y broses ddysgu, neu mae eu patrymau gwaith yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau eu cymhwyster.

55 Weithiau, mae dysgwyr yn gadael eu rhaglenni'n gynnar oherwydd nid oes gan ddarparwyr weithdrefnau recriwtio a dewis digonol. Gallai dysgwyr fod ar lefelau rhaglen amhriodol. Weithiau y rheswm am gyrhaeddiad gwael dysgwyr yw oherwydd ei bod yn ofynnol iddynt drosglwyddo rhwng darparwyr.

Colegau addysg bellach

56 Rhwng mis Medi 2002 a mis Awst 2006, arolygodd Estyn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn saith coleg addysg bellach. Roedd pob gradd a ddyfarnwyd gan arolygwyr Estyn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 uwchlaw trothwy ansawdd, sef gradd tri.

Proffil graddau arolygu ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 yn y maes dysgu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal mewn colegau addysg rhwng mis Medi 2002 a mis Rhagfyr 2006

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Nifer y colegau	1	4	2	0	0
Canran y colegau	14%	57%	29%	0%	0%

Nodyn: Roedd y maes dysgu'n cynnwys yr ystod lawn o raglenni.

57 Ar hyn o bryd, mae pob un o'r 22 coleg Addysg Bellach yng Nghymru yn cynnig rhaglenni mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal. Mae Estyn wedi arolygu'r maes dysgu mewn ychydig o dan draean o'r colegau addysg bellach.

58 Roedd dau goleg yn cyflwyno CGCau yn unig. Roedd y CGCau a oedd yn gysylltiedig â chymwysterau gofal cymdeithasol yn cynnwys CGCau mewn Gofal ar lefelau 2, 3 a 4 a CGC lefel 3, Hyrwyddo Annibyniaeth. Roedd yr holl ddysgwyr yn astudio'n rhan-amser ac roeddent mewn cyflogaeth gysylltiedig, fel cartrefi preswyl i bobl oedrannus[2].

59 Roedd tri choleg yn cyflwyno ystod eang o Gymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth gofal cymdeithasol i ddysgwyr amser llawn a rhan-amser. Roedd Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth a gynigiwyd gan y colegau yn cynnwys Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol, Tystysgrifau Uwch mewn Addysg (AVCE), Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (CGCC) ar lefel Canolradd, astudiaethau lles a chyrsiau cwnsela. Cafodd pob dysgwr amser llawn brofiad gwaith fel rhan annatod o'u cwrs.

60 Hefyd, roedd gan ddau o'r tri choleg hyn ddarpariaeth CGC sylweddol mewn Gofal ar lefelau 2, 3 a 4 a Hyrwyddo Annibyniaeth ar lefel 3. Roedd gan y trydydd coleg swm bach o ddarpariaeth CGC[3]. Cyflogwyd y rhan fwyaf ond nid pob un o'r dysgwyr ar y rhaglenni hyn yn y sector gofal cymdeithasol.

61 Roedd rhai o'r dysgwyr nad oeddent yn gweithio mewn gofal cymdeithasol ar hyn o bryd yn astudio Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn bennaf. Roedd rhai yn dilyn rhaglenni CGC. Roedd rhai dysgwyr rhan-amser sy'n astudio Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth wedi'u cyflogi yn y sector gofal cymdeithasol.

62 Cynigiodd y ddau goleg a oedd yn weddill Gymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn unig, naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser. Roedd y rhain yn cynnwys Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol, AVCE a CGCC Canolradd.

[2] Nid yw niferoedd y dysgwyr ar gael.
[3] Fodd bynnag, roedd gan y coleg hwn ddarpariaeth CGC sylweddol mewn Gofal a ariennir trwy Dysgu yn y Gwaith. Nid arolygwyd hwn y tro hwn.

Cyflawniad dysgwyr

63 Yn gyffredinol, cyflawnodd dysgwyr yn dda. Ym mhob un o'r saith coleg, cwblhaodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr eu cyrsiau galwedigaethol a gwnaethant ennill eu cymwysterau. Cyflawnwyd safonau da, ac weithiau da iawn ganddynt yn eu gwaith ysgrifenedig a llafar.

64 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni ac yn symud ymlaen yn dda ac yn datblygu ystod dda o fedrau yn gysylltiedig â gofal. Roeddent yn arddangos safonau uchel o fedrau ymarferol yn eu gweithleoedd neu leoliadau gwaith ac roedd ganddynt lefelau uchel o hyfedredd galwedigaethol.

65 Mewn chwech o'r saith coleg, enillodd dysgwyr gymwysterau medrau allweddol yn ogystal â'u rhaglen alwedigaethol. Mewn pump o'r colegau, defnyddiodd y dysgwyr dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda yn eu gwaith.

66 Mewn chwech o'r colegau, enillodd pob dysgwr gymwysterau ychwanegol neu dystysgrifau cydnabyddedig yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

67 Mewn dau o'r colegau, cafodd dysgwyr yr oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt gyfleoedd da i ddatblygu medrau dwyieithog. Yn ogystal, cawsant brofiad gwaith mewn lleoliadau dwyieithog ganddynt.

68 Datblygodd pob dysgwr wybodaeth a dealltwriaeth da o egwyddorion proffesiynol pwysig a chysyniadau gofal pwysig. Roeddent yn gallu cysylltu profiadau ymarferol â'u hastudiaethau ystafell ddosbarth, ac â'u haseiniadau, yn dda. Gwnaethant ddefnyddio'u profiadau'n dda i gefnogi eu hastudiaethau. Yn ogystal, defnyddiwyd eu hastudiaethau damcaniaethol yn dda ganddynt i wella'u harfer yn y gweithle ac i ddatblygu eu medrau yn y gweithle ymhellach.

69 Myfyriodd dysgwyr yn dda ar eu hymarfer proffesiynol ac ar sut y gallent wella'u medrau ymarferol a galwedigaethol. Yn ogystal, datblygwyd medrau pwysig ganddynt a fyddai'n eu helpu i'w paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Gwnaethant drafod materion proffesiynol yn hyderus gyda chydweithwyr a chyd-ddysgwyr.

70 Symudodd llawer o ddysgwyr ymlaen at gymwysterau lefel uwch a hyfforddiant proffesiynol, yn eu coleg presennol ac mewn sefydliadau eraill. Datblygodd y rhai mewn cyflogaeth gofal cymdeithasol fedrau newydd, gan symud yn aml at swyddi cyfrifol lle roedd ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio staff eraill.

71 Enillodd dysgwyr ystod eang o fedrau trwy eu cyrsiau yn y coleg a'u gweithgareddau yn y gweithle. Roedd pob un yn llawn cymhelliant ac yn cyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau dysgu. Yn aml, roedd y rhai mewn cyflogaeth wedi'u cymell i barhau i ddysgu ar ôl iddynt ennill eu cymhwyster, sef eu cymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig cyntaf yn aml iawn. Datblygodd dysgwyr amser llawn fedrau galwedigaethol da yn ystod eu cyfnodau profiad gwaith.

72 Magodd y rhan fwyaf o ddysgwyr hyder, wrth ymgymryd â'u hastudiaethau ac wrth gyflawni eu gwaith ymarferol. Roeddent yn uchel eu cymhelliant ac yn cynllunio'u

gwaith yn dda. Gwnaethant ddatblygu'r gallu i ymchwilio i destunau eu hunain ac i weithio'n dda yn annibynnol. Roeddent yn aml yn dod yn fwy hyderus yn eu gallu. Yn ogystal, gwnaethant rannu gwybodaeth a phrofiadau'n dda gyda chydweithwyr yn y gwaith a'u cyd-ddysgwyr.

73 Yn gyffredinol, nid oedd llawer iawn o faterion yn peri pryder. Lle'r oedd pryderon yn codi, roeddent yn ymwneud yn bennaf â chyrhaeddiad dysgwyr yn eu cymwysterau. Yn gyffredinol, byddai arolygwyr yn dyfarnu gradd 3 os nad oedd digon o'r garfan flaenorol o ddysgwyr a ddechreuodd eu cwrs wedi ennill eu cymhwyster gofal cymdeithasol. Yn gyffredinol, y rheswm am hyn oedd oherwydd eu bod wedi gadael eu rhaglen yn gynnar, ond nid oedd hyn yn wir bob tro.

74 Mewn un coleg, nid oedd athrawon yn asesu cyrhaeddiad dysgwyr mewn medrau allweddol yn ffurfiol. Fodd bynnag, roedd dysgwyr yn datblygu'r medrau hyn yn dda trwy eu rhaglen alwedigaethol. Mewn coleg arall, nid oedd dysgwyr yn gallu ennill cymwysterau na thystysgrifau ychwanegol ar gyfer cyrsiau byr yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

75 Mewn ychydig iawn o achosion, mewn un coleg yn bennaf, nid oedd rhai dysgwyr yn cymryd rhan yn ddigonol yn eu dysgu ac roeddent yn colli sesiynau. Yn yr un coleg, ac mewn un coleg arall, nid oedd yr athrawon bob amser yn cysylltu gwersi â chyd-destun proffesiynol. Nid oedd y dysgwyr yn cael digon o gyfle i archwilio'r cysylltiadau rhwng eu gwaith damcaniaethol a'u profiadau ymarferol. Nid oeddent yn elwa digon ar brofiadau proffesiynol yr athrawon. Nid oedd yr athrawon yn canolbwyntio digon ar agweddau galwedigaethol y rhaglenni. O ganlyniad, nid oedd y dysgwyr hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion proffesiynol yn ddigon da.

76 Mewn un coleg, roedd rhai dysgwyr ar gyrsiau lefel 1 a lefel 2 yn cael anhawster wrth ddeall rhai cysyniadau anodd yn gysylltiedig â materion gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd profiad proffesiynol cyfyngedig yr athro. Mewn coleg arall, weithiau nid oedd dysgwyr ar gyrsiau lefel 3 yn cael eu herio digon i wella safon eu gwaith ymhellach. Nid oedd rhai o'r dysgwyr hyn yn datblygu eu medrau ymchwil yn ddigon da.

Atodiad 1

CGCau a Chymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth

Mae CGCau yn cynnig cymwysterau sy'n seiliedig ar hyfedredd gyda phwyslais ar asesu yn y gweithle. Ffurfiwyd CGCau, sydd wedi'u hadeiladu ar safonau a meini prawf galwedigaethol cenedlaethol, gan awdurdodau rheoleiddio fel Cyngor Gofal Cymru, cangen Cymru y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn gymwysterau galwedigaethol. Maent yn rhoi i ddysgwyr y medrau a'r wybodaeth perthnasol y mae eu hangen ar gyfer y maes galwedigaethol o'u dewis. Maent yn ymwneud â chyflogaeth ac yn rhoi'r dewis i ddysgwyr naill ai hyfforddi ar gyfer gyrfa wahanol neu symud ymlaen yn eu dewis alwedigaeth.

Mae Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth yn cysylltu â safonau galwedigaethol cenedlaethol. Maent yn canolbwyntio mwy ar y wybodaeth y mae ei hangen i symud ymlaen mewn maes galwedigaethol penodol na CGCau. Gallai Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth gynnwys cyfnodau o brofiad gwaith a allai gael eu hasesu.

Mae Cyngor Gofal Cymru, fel Cyngor Sgiliau Sector, yn gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n pennu pa gymwysterau a fydd yn ofyniad ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae Cyngor Gofal Cymru yn argymell bod y cymwysterau gofynnol i'r rhai sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol (gofal uniongyrchol) yn CGCau priodol sy'n gysylltiedig â gofal.

Atodiad 2

Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin a saith cwestiwn allweddol Estyn yn canolbwyntio ar:

Cyflawniadau'r dysgwyr

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mae Estyn yn dyfarnu graddau ar gyfer meysydd dysgu arolygu Cwestiwn Allweddol 1 (safonau) yn unig. Caiff Cwestiynau Allweddol 2 i 7 eu graddio ar draws y sefydliad cyfan. Nid yw'r graddau hyn yn cyfeirio at faes dysgu penodol.

Mae Cwestiwn Allweddol 1 yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni yn y maes dysgu sy'n cael ei arolygu. Mae'n gosod y meini prawf ar gyfer mesur pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni. Mae hyn yn cynnwys:

- llwyddiant dysgwyr wrth ennill eu nodau dysgu cytûn: eu cyflawniad o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau a'u cyrhaeddiad o ran eu cymwysterau;
- cynnydd dysgwyr mewn dysgu; a
- datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r dysgwyr.

Atodiad 3

Proffil o raddau arolygu AB a dysgu yn y gwaith

Proffil y graddau arolygu ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ar gyfer y maes dysgu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, a ddyfarnwyd i ddarparwyr addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith rhwng mis Medi 2002 a mis Awst 2006, gan gynnwys graddau ail-arolygu

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Nifer y darparwyr	1	5	6	1	1
Canran y darparwyr	7%	36%	43%	7%	7%